

## CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

### COFNODION:

**Dyddiad:** 24 Mehefin 2003  
**Amser:** 9:30 a.m.  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol  
**Preseanol:** (Democrat Rhyddfrydol)

Eleanor Burnham

Rosemary Butler (Llafur)

Christine Chapman (Llafur)

Jeff Cuthbert (Llafur)

Glyn Davies (Ceidwadwyr)

Irene James (Llafur)

Elin Jones (Plaid Cymru)

Laura Jones (Ceidwadwyr)

Dai Lloyd (Plaid Cymru)

Catherine Thomas (Llafur)

### Swyddogion

John Turnbull Ymgynghorydd Cyfreithiol

Huw Rowlands Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Olga Lewis Clerc y Pwyllgor

Simon Thwaite Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.

**Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – (2)LEG-01-2003**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai cyflwyniad yn cael ei wneud yng nghyfarfod heddiw gan Richard Crowe, y Prif Gyfieithydd Cyfraith yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Nododd y Cadeirydd ymhellach y dylai'r Pwyllgor gael trafodaeth gydag ef ar ôl ystyried yr Offerynnau Statudol.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

3.1 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol.

**LC706 - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003**

**LC708 - Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC709 - Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfyngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC710 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC711 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003**

**LC707 - Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 2) 2003**

3.2 Nododd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol bod gwall a gofnodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor wedi ailymddangos yn y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, ymddengys mai camgymeriad gan y cyfreithiwr drafftio yw hyn yn deillio o bwysau'r amserlen ac nad oedd wedi codi oherwydd unrhyw ddiffyg sylw i argymhellion y Pwyllgor. Disgwylir i'r Gorchymyn gael ei ddiwygio ymhellach yn y dyfodol agos ac roedd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol wedi cael ei sicrhau na fyddai'r mater yn cael ei anwybyddu eto.

**Eitem 4: Cyflwyniad gan Richard Crowe, Prif Gyfieithydd Cyfraith: 'Her Cyfieithu Deddfwriaeth'.**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Richard Crowe i'r Pwyllgor a'i wahodd i wneud cyflwyniad byr.

4.2 Yn ei gyflwyniad cyfeiriodd Dr Crowe at y canlynol:

- Fel Prif Gyfieithydd Cyfraith, ef sy'n gyfrifol am y tîm o bedwar uwch gyfieithydd cyfraith. Mae'r tîm yn rhan o Swyddfa'r Llywydd, ond eu bod wedi eu lleoli gyda'r cyfreithwyr yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ym Mharc Cathays.
- Mae rhan helaeth o waith y tîm yn cynnwys drafftio fersiynau Cymraeg o'r testunau Saesneg. Pan gâi'r testunau ei cyfieithu, byddai cyfreithwyr Cymraeg eu hiaith yn gwirio'r cyfieithiadau. Byddai'r tîm hefyd yn edrych dros unrhyw destunau a ddrafftiodd yn wreiddiol yn Gymraeg gan gyfreithwyr dwyieithog.
- Mae sefyllfaoedd yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn y byd yn hollol wahanol, gyda'r iaith

Saesneg yn brif iaith a gaiff ei defnyddio i drafod ystod eang o bynciau (gan gynnwys deddfwriaeth), iaith Gymraeg yn iaith a ddefnyddir yn llai aml a phrin y'i defnyddiwyd yn gyhoeddus tan yn ddiweddar iawn. Pan ddaeth cyfraith Lloegr i gymryd lle cyfraith Cymru yng Nghymru, Saesneg oedd iaith y gyfraith, gan ddisodli'r Gymraeg yn ei sgîl.

- Neiwiodd y sefyllfa yn ddiweddar, felly mae cyfieithwyr bellach yn wynebu'r dasg o wneud deddfwriaeth Gymraeg o fewn fframwaith cyfraith gyffredin a deddfwriaeth Ewrop.
- Wrth gyfieithu testunau cyfreithiol, ar wahân i fynd i'r afael ag anawsterau sy'n neilltuol i'r testun, (sef brawddegau hirion, cynnwys sawl is-gymal, defnydd anghyffredin o eiriau) rhaid i'r tîm oresgyn gwahaniaethau ieithyddol naturiol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, megis trefn wahanol i'r geiriau yn y frawddeg a chenedl enwau. Rhaid gwneud cyfieithiadau i amserlen gaeth. Gan fod is-ddeddfwriaeth yn aml yn llawer mwy manwl na deddfwriaeth sylfaenol, anaml iawn y mae terminoleg arbenigol ar gael a rhaid i gyfieithwyr gydweithio â chyfreithwyr i greu termau newydd.
- Nid oes hyfforddiant penodol ar gael ar gyfer cyfieithwyr cyfraith a rhaid iddynt ddysgu wrth eu gwaith.

#### 4.3 Cododd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Gan ddefnyddio "Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003" fel enghraifft (LC 706), gofynnwyd pam fod termau penodol yn Gymraeg yn cael eu dilyn gan gyfieithiad Saesneg mewn cromfachau, ond nad oedd testun Saesneg yn cael ei ddilyn gan gyfieithiad Cymraeg. Eglurwyd, fel arfer, bod y termau diffiniedig yn yr adrannau dadansoddiadol o'r testunau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hegluro gan y termau cyfatebol, mewn cromfachau, yn yr iaith arall er mwyn hwyluso trawsgyfeirio.
- Cwestiwn arall a godwyd oedd cyd-ddrafftio Offerynnau Statudol yn ddwyieithog. Nodwyd bod y Pwyllgor yn ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a bod y Cwnsler Cyffredinol ei hun wedi dod i'r Pwyllgor i wneud cyflwyniadau ar y mater sawl gwaith felly roedd yr Aelodau am wybod sawl Offeryn Statudol oedd yn cael eu cyd-ddrafftio'n ddwyieithog. Atebodd Dr Crowe er nad oedd yn gymwys i ateb y cwestiwn hwnnw, ei fod yn ymwybodol bod rhywfaint o gyd-ddrafftio yn digwydd. Ychydig iawn o gyfle sydd i gyd-ddrafftio gan fod y rhan fwyaf o'r Offerynnau Statudol wedi cael eu drafftio'n sylweddol yn Saesneg ymlaen llaw. Er mwyn cymhwyso cyd-ddrafftio yn ei wir ystyr, rhaid oedd dechrau'r broses drafftio o'r dechrau. Byddai hyn yn haws o lawer pe trosglwyddwyd y pwerau deddfwriaethol sylfaenol i'r Cynulliad.
- Nodwyd bod yr Aelodau, yn ystod eu hymweliad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael eu hysbysu bod Prifysgolion Cymru wrthi'n datblygu geiriadur o derminoleg dderbyniol a allai gael ei ddefnyddio gan sefydliadau amrywiol. Atebodd Dr Crowe nad oedd ef ei hun yn ymwybodol o'r gwaith hwn, er bod cyfieithwyr y Cynulliad yn sefydlu eu casgliad o derminoleg eu hunain yn electronig. Mae'r casgliad hwnnw'n ehangu drwy'r amser.

#### 4.4 Diolchodd y Cadeirydd i Dr Crowe am gyflwyniad diddorol a dymunodd yn dda i'r tîm yn eu gwaith.

### **Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

#### 5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Gorffennaf 2003.